

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar sefydliadau cyhoeddus i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau ymddygiad o ran y Gymraeg. O 25 Ionawr 2017, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg o dan Adran 47 y Mesur, sy'n disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Mae'r Polisi Safonau'r Gymraeg hwn yn disgrifio sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn:

- Trin y Gymraeg yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg
- Cynnig mwy o eglurder i siaradwyr Cymraeg ynghylch y gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn gennym trwy gyfrwng y Gymraeg
- Nodi sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â phob safon ofynnol a gyflwynir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio

Mae'r Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â nhw wedi'u rhannu'n bedwar categori:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredu
- Cadw Cofnodion

Mae cyfeiriadau at iaith ddewisol yn y polisi hwn yn ymwneud â'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Ein gweledigaeth i'r Gymraeg

- Gweithio tuag at sefydlu ein hunain fel sefydliad naturiol ddwyieithog yn ein holl weithleoedd, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, wrth weithio gyda phartneriaid ac yn ein gweinyddiaeth fewnol.
- Annog ein gweithlu i ymfalchïo yn y Gymraeg a'n hymrwymiad i sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad dwyieithog.
- Cynyddu'n raddol cyfran y staff ar bob lefel sydd â'r gallu a'r hyder i siarad ac ysgrifennu'r Gymraeg i gydymffurfio â mesurau'r Safonau.
- Meithrin mwy o arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg yn y meysydd amgylcheddol a gwyddonol sy'n ymwneud â'n gwaith, gan geisio cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn meysydd arbenigol trwy hynny.
- Chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu defnydd o'r Gymraeg yn rhagweithiol trwy weithio gyda phartneriaid ac unigolion ar draws sector yr amgylchedd a thu hwnt, ac annog arfer dwyieithog da.

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Sut mae CNC yn bwriadu cydymffurfio â Safon	Dyddiad Gosod
1	Cyflenwi Gwasanaethau Gohebiaeth ysgrifenedig (papur ac electronig)	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	Rydym yn croesawu llythyrau a gohebiaeth electronig trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg os oes angen ymateb. Bydd ein hamser targed ar gyfer ymateb yr un fath ag ar gyfer gohebiaeth Saesneg.	25.1.17
2		Pan fyddwch yn gohebu ag unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny rhaid ichi— (a) cadw cofnod o ddymuniad A, (b) gohebu yn Gymraeg ag A wrth ohebu ag A o hynny ymlaen, ac (c) anfon unrhyw ffurflenni y byddwch yn eu hanfon at A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Wrth gychwyn gohebiaeth gydag unigolyn am y tro cyntaf, bydd yr ohebiaeth, gan gynnwys yr holl ddeunydd amgaeedig, yn cael ei hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i'r derbynnydd pa iaith y mae'n dymuno ei defnyddio i ohebu â ni. Pan fydd y dewis iaith yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd gohebiaeth o hynny	25.1.17

			ymlaen yn cael ei hanfon at y derbynnydd yn ei iaith ddewisol.	
3		<p>Pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at ddau unigolyn sy'n aelodau o'r un aelwyd (er enghraifft, rhieni plentyn) am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i'r unigolion hynny a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg, ac os—</p> <p>(a) yw'r ddau unigolyn yn ymateb i ddweud eu bod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'u dymuniad, a gohebu yn Gymraeg o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny;</p> <p>(b) yw un o'r unigolion (ond nid y ddau) yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a darparu fersiwn Gymraeg o ohebiaeth o hynny ymlaen pan fyddwch yn anfon gohebiaeth a gyfeirir at y ddau unigolyn hynny.</p>	<p>Wrth gychwyn gohebiaeth gyda dau unigolyn o'r un aelwyd am y tro cyntaf, bydd yr ohebiaeth yn cael ei hanfon yn ddwyieithog gan ofyn i'r derbynnydd/derbynnyddion pa iaith y mae'n dymuno ei defnyddio i ohebu â ni. Pan fydd y dewis iaith yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd gohebiaeth o hynny ymlaen yn cael ei hanfon at bob derbynnydd yn ei iaith ddewisol.</p>	25.1.17
4		<p>Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.</p>	<p>Bydd gohebiaeth a anfonir i sawl unigolyn yn cael ei hanfon yn ddwyieithog oni bai fod dewis iaith pob derbynnydd yn hysbys.</p> <p>Bydd llythyrau a chylchlythyrau safonol a fwriedir i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, a'n harfer fydd sicrhau bod y</p>	25.1.17

			ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.	
5		Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyh yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	Byddwn yn gohebu'n ddwyieithog pan nad ydym yn siŵr am ddewis iaith unigolyn.	25.1.17
6		Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth yn cael eu llofnodi. Mae ein deunydd ysgrifennu, gan gynnwys teitlau, cyfeiriadau a logos, yn ddwyieithog. Bydd mapiau a mewnosodiadau eraill sy'n cael eu benthyg neu eu defnyddio ar sail trwydded yn cael eu darparu yn yr iaith y'u cyhoeddwyd yn wreiddiol.	25.1.17
7		Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.	Bydd gohebiaeth ysgrifenedig swyddogol yr ydym yn ei chyflwyno yn cynnwys y llinellau isod: Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg	25.1.17
		Bydd Canllawiau Staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd i helpu a chynorthwyo staff i ymdrin â gohebiaeth Gymraeg.		
8	Cyflenwi Gwasanaethau	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell	Rydym yn croesawu ymholiadau ffôn yn y	25.1.17

	Cyfathrebu dros y ffôn	gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	Gymraeg a'r Saesneg. Bydd yr holl alwadau a dderbynnir yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog yn Gymraeg yn gyntaf ac yna Saesneg.	
9		Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg	Mae ein prif rif ffôn yn gweithredu gwasanaeth dwyieithog awtomatig sy'n llywio unigolion trwy drefn benodol â neges wedi'i recordio, gyda'r neges Gymraeg yn dod o flaen y Saesneg.	25.1.17
10		Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).	Byddwn yn delio gyda galwyr trwy gyfrwng eu hiaith ddewisol. Os bydd y galwr yn siarad Cymraeg, bydd ein staff yn ateb yn Gymraeg, neu os na fydd yn gallu gwneud hynny, bydd yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg ar unwaith. Mae ein cyfeiriadur staff <i>People Finder</i> mewnol yn rhestru ein siaradwyr Cymraeg, eu swydd, eu tîm, a pha swyddfa y maent yn gweithio ynddi. Bydd llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg, sy'n	25.1.17

			cynnig gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, yn darparu gwasanaeth dwyieithog.	
12		Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw rifau llinell gymorth a gwasanaethau canolfan alwadau sy'n cynnig gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth yn ddwyieithog ac yn cael eu hysbysebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
13		Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.	Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu un prif rif ffôn sy'n cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r galwr. Mae gwasanaeth rhybuddion llifogydd ffôn ar draws y DU (<i>Flood-line UK</i>) gyfan yn cynnig cyngor ar bryd a ble y mae llifogydd yn debygol o ddigwydd. Mae <i>Flood-Line UK</i> yn cynnig gwasanaeth Cymraeg i'r defnyddiwr trwy ddewis opsiwn 5.	25.1.17
14		Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Pan fyddwn yn cyhoeddi unrhyw rif ffôn yn hysbysebu ein gwasanaethau, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, gan nodi y	25.1.17

			croesewir galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg.	
15		Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Mae'r dangosyddion perfformiad yr un fath ar gyfer galwadau Cymraeg a Saesneg.	25.1.17
16		Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Mae ein prif rif ffôn yn gweithredu gwasanaeth ateb dwyieithog wedi'i recordio gyda'r neges Gymraeg yn dod cyn y Saesneg, lle gall galwyr adael neges yn eu hiaith ddewisol.	25.1.17
17		Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Bydd ein holl rifau ffôn sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd yn cynnig gwasanaeth dwyieithog.	25.1.17
18		Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	Bydd yr holl alwyr yn cael sylw yn eu hiaith ddewisol. Os bydd yn siarad Cymraeg, bydd ein staff yn ateb yn Gymraeg, neu os na fydd aelod o staff yn gallu ymdrin â'r alwad yn Gymraeg, bydd yn esbonio hyn i'r galwr ac yn trosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg ar unwaith. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith,	25.1.17

			bydd manylion cyswllt yn cael eu cymryd a'r galwr yn cael ei alw yn ôl cyn gynted ag y bydd siaradwr Cymraeg ar gael.	
20		Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.	Bydd yr holl alwadau yr ydym yn eu derbyn yn cael eu hateb gyda chyfarchiad dwyieithog a roddir yn Gymraeg yn gyntaf ac yna yn Saesneg.	25.1.17
21		Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthy ch yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Wrth gysylltu ag unigolyn dros y ffôn am y tro cyntaf, gofynnir i'r unigolyn trwy gyfrwng pa iaith yr hoffai dderbyn galwadau gennym. Unwaith y bydd dewis iaith yr unigolyn yn hysbys, bydd hyn yn cael ei gofnodi. Bydd galwadau o hynny ymlaen trwy gyfrwng dewis iaith yr unigolyn.	25.1.17
22		Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Bydd ein holl systemau ffôn awtomatig yn cynnwys gwasanaeth awtomatig dwyieithog.	25.1.17
		Bydd Canllawiau Staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd i helpu a chynorthwyo staff i ymdrin â galwadau ffôn.		
23	Cyflenwi Gwasanaethau	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; ac os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno	Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd gydag aelod o'r cyhoedd, byddwn yn mynd	25.1.17

	Cyfarfodydd	i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, rhaid ichi gynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	ati i gynnig y dewis o gyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Byddwn yn sicrhau y bydd siaradwr Cymraeg rhugl yn mynychu cyfarfodydd gyda'r rhai y mae'n well ganddynt gynnal y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg.	
25		Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Bydd pob gwahoddiad i gyfarfod yn cael ei anfon yn ddwyieithog gan ofyn i bob unigolyn ein hysbysu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	25.1.17
25A		Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.	Byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael mewn cyfarfodydd lle mae o leiaf 10% o'r rhai a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	25.1.17
25CH		Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	Mewn unrhyw gyfarfod lle mae pawb a wahoddwyd wedi ein hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod ein holl staff sy'n mynychu'r cyfarfod yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac	25.1.17

			yn cynnal y cyfarfod trwy gyfrwng y Gymraeg, heb gymorth cyfieithydd ar y pryd.	
26		Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Wrth drefnu cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, bydd yr holl hysbysebion a gwahoddiadau yn ddwyieithog, gan nodi y croesewir defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn y cyfarfod. Byddwn yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn bresennol, i annerch neu gyfrannu yn y cyfarfod. Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod cyhoeddus agored.	25.1.17
27		Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	Bydd pob gwahoddiad i gyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.	25.1.17
28		Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi— (a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a (b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r	Wrth wahodd pobl i siarad mewn cyfarfod yr ydym yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, byddwn yn gofyn i bob siaradwr pa iaith y byddai'n well ganddynt ddefnyddio yn y cyfarfod. Os bydd siaradwr yn ein hysbysu	25.1.17

		Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).	bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (oni bai fod pawb sy'n mynychu wedi ein hysbysu o'u dymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg).	
29		Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg— (a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.	Yn ein holl gyfarfodydd a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd, bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod gyda chyfarchiad dwyieithog, yn hybysu'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, ac yn tynnu sylw at y ffaith fod y gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael. Byddwn yn sicrhau bod nifer ddigonol o staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol, i annerch neu gyfrannu yn y cyfarfod.	25.1.17
30		Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin	Bydd ein holl ddeunyddiau ysgrifenedig/arddangos a arddangosir mewn cyfarfodydd yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn	25.1.17

		unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	y addedangos uwchben y Saesneg, neu i'r chwith iddi.	
31		Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	Wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill i drefnu digwyddiad cyhoeddus, byddwn yn ceisio hybu a rhannu arfer dwyieithog da. Bydd ein cyfraniad yn y bartneriaeth yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio.	25.1.17
32		Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	Wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill i drefnu digwyddiadau cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod ein cyfraniad yn cydymffurfio â gofynion y Safonau fel yr amlinellir yn ein Hysbysiad Cydymffurfio ar gyfer unrhyw wasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.	25.1.17
33		Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd ein holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu yn cael ei gynhyrchu'n ddwyieithog; bydd y Gymraeg yn y addedangos ar y chwith neu uwchben y Saesneg neu yr un mor flaenllaw. Os bydd	25.1.17

			rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn datgan bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall hefyd.	
34		Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Bydd yr holl ddeunydd yr ydym yn ei arddangos yn gyhoeddus yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg neu yr un mor flaenllaw (e.e. "wyneb i waered"). Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd. Bydd pob fersiwn yn cynnwys neges yn datgan bod y cyhoeddiad ar gael yn yr iaith arall hefyd.	25.1.17
		Bydd canllawiau staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd i gynorthwyo staff wrth drefnu cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae canllawiau hefyd ar gael i staff gan ein tîm Cyfathrebu.		
36	Cyflenwi Gwasanaethau Cyfieithu	Rhaid i unrhyw ddogfennau at ddefnydd y cyhoedd yr ydych yn eu llunio gael eu llunio yn Gymraeg.	Bydd dogfennau a gynhyrchir at ddefnydd y cyhoedd yn	25.1.17

		<ul style="list-style-type: none"> pan fo'r ddogfen a lunnir yn wyddonol neu'n dechnegol 	cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, ac eithrio dogfennau gwyddonol neu dechnegol. Bydd crynodeb dwyieithog yn cael ei ddarparu ar gyfer ein dogfennau gwyddonol neu dechnegol sy'n fwy cyhoeddus.	
43		Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i'r cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir a fydd yn cael eu gwneud ar gael i'r cyhoedd yn destun asesiad o'r angen am gyhoeddiad dwyieithog. Bydd yr asesiad yn cymryd y pwnc dan sylw a disgwyliadau'r gynulleidfa i ystyriaeth.	25.1.17
		Bydd Canllawiau Staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gyfieithu ar y fewnrwyd i gynorthwyo staff gyda gofynion cyfieithu. Bydd y canllawiau'n cynnwys rhestr wirio i asesu'r angen am gyfieithiad.		
44	Cyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddiadau	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau ar wahân o ddogfennau am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd.	25.1.17
45		Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y	Bydd dogfennau Cymraeg a Saesneg sy'n cael eu llunio	25.1.17

		fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	ar wahân yn datgan bod y ddogfen ar gael yn yr iaith arall ar y fersiynau Cymraeg a Saesneg.	
46	Cyflenwi Gwasanaethau Ffurflenni	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei rhoi ar gael i'r cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Bydd ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	25.1.17
46A		Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Os bydd rhaid cyhoeddi ffurflenni ar wahân am resymau ymarferol, bydd y ddwy fersiwn o'r un maint ac ansawdd, ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Bydd pob un yn cynnwys neges bod y ffurflen ar gael yn yr iaith arall hefyd.	25.1.17
46B		Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	Bydd pob ffurflen i'w defnyddio gan y cyhoedd yn ddwyieithog fel rheol. Bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ffurflenni yr un fath yn y ddwy iaith.	25.1.17
47		Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	Bydd gwybodaeth a gofnodwyd ymlaen llaw ar ffurflenni yn cael ei chofnodi yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17

			Ein harfer safonol fydd anfon ffurflenni yn dewis iaith y cwsmer.	
		Bydd Canllawiau Staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnrwyd i gynorthwyo staff sy'n cynhyrchu cyhoeddiadau, ffurflenni a hysbysiadau. Mae Canllawiau ar Frandio hefyd ar gael i staff gan ein tîm Cyfathrebu.		
48	Cyflenwi Gwasanaethau Wefan	Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	Mae pob tudalen ar ein gwefan ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
51		Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Mae pob tudalen ar ein gwefan yn rhoi opsiwn iaith i'r defnyddiwr sy'n cynnig dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg/Saesneg gyfatebol.	25.1.17
52		Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen o'n gwefan ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.	25.1.17
53	Cyflenwi Gwasanaethau Apiau	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	Bydd pob ap a gyhoeddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gael ac yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17

54	Cyflenwi Gwasanaethau Cyfryngau Cymdeithasol	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd ein holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Twitter a Facebook) yn ddwyieithog bob amser, gyda'r neges Gymraeg yn cael ei thrydar fel ei bod yn ymddangos ac yn cael ei darllen gyntaf. Bydd staff sy'n gweithredu cyfrifon Twitter unigol yn gwneud hynny yn eu hiaith ddewisol a bydd rhai o'n staff yn gweithredu cyfrifon Cymraeg yn unig.	25.1.17
55	Cyflenwi Gwasanaethau	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Ein harfer yw ymateb yn yr iaith dderbyn neu'n ddwyieithog.	25.1.17
		Mae canllawiau i staff ar gael gan y tîm Cyfathrebu ar gyhoeddi ar ein gwefan, ein apiau a'n cyfryngau cymdeithasol.		
56	Cyflenwi Gwasanaethau Peiriannau Hunanwasanaeth	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â'r peiriant hwnnw	Bydd ein holl beiriannu hunanwasanaeth yn gwbl weithredol yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
57	Cyflenwi Gwasanaethau Arwyddion (parhaol a dros dro)	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn	Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog a bydd y testun Cymraeg a Saesneg yn cael	25.1.17

		Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	ei drin yn gyfartal o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.	
58		Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Ar ein holl arwyddion, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y Saesneg fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf.	25.1.17
59		Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Bydd testun ar arwyddion yn cael ei wirio gan ein cyfieithwyr mewnol ar gyfer cywirdeb o ran ystyr a mynegiant.	25.1.17
		Mae canllawiau staff ar arwyddion ar gael ar y dudalen Frandio ar y fewnrwyd.		
60	Cyflenwi Gwasanaethau Derbynfeydd	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	Byddwn yn croesawu ymholiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ein holl ddesgiau derbynfa cyhoeddus. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael ar unwaith i ymdrin ag aelod o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, bydd cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg yn cael ei alw i ymdrin â'r ymholiad ar unwaith.	25.1.17
63		Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	Arddangosir arwydd ar ein holl ddesgiau derbynfa cyhoeddus yn croesawu defnydd o'r Gymraeg.	25.1.17

64		Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	Bydd ein staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo llinyn gwddf neu fathodyn i ddangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.	25.1.17
		Bydd Canllawiau Staff yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen Gymraeg ar y fewnwyd i helpu staff sy'n gweithio mewn derbynfeydd.		
65	Cyflenwi Gwasanaethau Hysbysiadau	Rhaid i unrhyw hysbysiad yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Bydd ein holl hysbysiadau sy'n cael eu cyhoeddi neu eu harddangos yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn ymddangos uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg. Os byddant yn cael eu cyhoeddi ar wahân am resymau ymarferol, byddant o'r un maint ac amlygrwydd ac ar gael ar yr un pryd.	25.1.17
66		Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Pan fyddwn yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad, bydd y testun Cymraeg yn ymddangos i'r chwith neu uwchben y testun Saesneg fel bod y Gymraeg yn debygol o gael ei darllen gyntaf.	25.1.17
		Mae canllawiau ar gael i'r staff gan ein tîm Cyfathrebu ynghylch brandio a chyhoeddi cyhoeddiadau.		
67	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi	Bydd yr holl ddeunyddiau cysylltiedig a gyhoeddir sy'n	25.1.17

	Grantiau	yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	ymwneud â cheisiadau am grant i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, neu o'r un maint ac amlygrwydd ac ar gael ar yr un pryd os yn cael eu cynhyrchu ar wahân am resymau ymarferol.	
68		Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Bydd yr holl wahoddiadau, dogfennau a ffurflenni yn datgan y croesewir ceisiadau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn ddim llai ffafriol na'r rhai a dderbynnir yn Saesneg.	25.1.17
68A		Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Bydd dyddiadau cau ac amser targed ar gyfer derbyn ac ymateb i ymgeiswyr yr un fath ar gyfer ceisiadau Cymraeg a Saesneg.	25.1.17
69		Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyfweld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	Bydd ceisiadau a dderbynnir yn Gymraeg yn cael eu trin yn Gymraeg os bydd yr ymgeisydd yn dymuno, o ran yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a chyfathrebiadau ffôn, ac, os bydd angen cynnal cyfweliad, bydd yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd	25.1.17

			siaradwr Cymraeg rhugl priodol ar gael i ymdrin â'r ymgeisydd a'r broses gyfweld.	
71		Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	Bydd yr holl ohebiaeth ysgrifenedig a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn yr un iaith honno.	25.1.17
72	Cyflenwi Gwasanaethau Contractau a ddyfernir i drydydd partion	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Bydd Hysbysiadau Contract sydd y tu allan i Reoliadau Caffael Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd manylebau tendr sy'n cynnwys gwybodaeth dechnegol neu wyddonol yn cael eu hasesu gan ddefnyddio ein rhestr gwirio cyfieithiadau i asesu'r angen am gyfieithiad. Bydd ystyriaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys fel sy'n briodol mewn manylebau contract, a fydd yn cynnwys gofynion iaith yn ymwneud ag unrhyw agweddau penodol ar wasanaeth	25.1.17

			cyhoeddus y maent yn ei ddarparu ar ein rhan.	
73		Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	Bydd pob Hysbysiad Contract i dendro am gontract yn datgan y croesewir tendrau yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflenni yr un fath ar gyfer y ddwy iaith.	25.1.17
73A		Rhaid ichi beidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwr am benderfyniadau).	Bydd yr amserlen ar gyfer ymdrin â cheisiadau yr un fath ar gyfer y rhai a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
74		Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweiliad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r tendrwr yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnwys cyfweiliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	Bydd tendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn y Gymraeg gan gynnwys yr angen i gyfweld y sawl sy'n tendro os oes angen. Bydd aelod priodol o staff sy'n siarad Cymraeg rhugl yn cynnal y cyfweiliad heb wasanaeth cyfieithu ar y pryd neu ddilynol.	25.1.17
76		Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.	Bydd tendrau a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn y Gymraeg, gan gynnwys unrhyw benderfyniad a wneir ynghylch y tendr.	25.1.17
		Mae canllawiau ar gael i staff gan ein tîm Caffael.		

77	Hysbysu a Hybu	Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.	Bydd yr holl hysbysebion yn hyrwyddo ein gwasanaethau yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.	25.1.17
78		Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.	Bydd yr holl gyhoeddusrwydd neu ddogfennau yr ydym yn eu cynhyrchu yn hysbysebu gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan.	25.1.17
79	Hunaniaeth Gorfforaethol	Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol a delwedd gyhoeddus ddwyieithog. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr holl ddeunyddiau sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol.	25.1.17
80	Hyfforddiant	Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.	Byddai unrhyw gwrs addysg y byddem yn ei gynnig i'r cyhoedd yn gwahodd y gynulleidfa i'n hysbysu am eu dewis iaith ar gyfer cymryd rhan yn y cwrs.	25.1.17
83	Cyhoeddiad Cyhoeddus	Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn	Bydd unrhyw gyhoeddiad sy'n cael ei wneud dros system annerch gyhoeddus	25.1.17

		Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	yn cael ei wneud yn ddwyieithog gyda'r neges Gymraeg yn dod o flaen y Saesneg.	
84	Llunio Polisi	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'n eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	25.1.17
85		Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi	Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau	25.1.17

		<p>ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu sut y byddai'r penderfyniad polisi yn cael effaith gadarnhaol neu effaith fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	
86		<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p>	<p>Wrth lunio polisi newydd neu ddiwygio penderfyniadau polisi a wnaed eisoes, byddwn yn gwneud hynny yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg. Byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, sy'n cynnwys ystyriaethau</p>	25.1.17

		(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg	<p>Cymraeg, i asesu sut na fyddai'r penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael dim effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	
87		<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar yr effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael dim effeithiau andwyol neu effeithiau 	25.1.17

			<p>llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	
88		<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol y byddai'r penderfyniad polisi dan ystyriaeth yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	25.1.17
89		<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen</p>	<p>Pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori sy'n</p>	25.1.17

		<p>honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>ymwneud â phenderfyniad polisi, bydd y ddogfen yn gofyn am safbwyntiau ar sut na fydd y penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beidio â chael unrhyw effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg 	
90		<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant—</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p>	<p>Pan fyddwn yn cyhoeddi polisi newydd neu'n diwygio polisi presennol ar ddyfarnu grantiau ar gyfer gweithgareddau i gael eu cynnal yng Nghymru, byddwn yn gwneud hynny'n unol â gofynion Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys elfennau ymgeisio, asesu, cynnig, monitro taliadau ac adrodd.</p>	25.1.17

		<p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar—</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p>	<p>Pan fyddwn yn llunio, yn cyhoeddi neu'n diwygio polisi ar ddyfarnu grantiau, byddwn yn cymryd i ystyriaeth sut y gall y penderfyniad polisi yng nghyswllt dyfarnu'r grant:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol neu effeithiau llai andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg <p>Y rhai sy'n goruchwyllo'r rhaglen neu'r prosiect yr ydym yn ei gefnogi gyda grant fydd yn monitro cydymffurfriad â Safonau'r Gymraeg.</p>	
--	--	---	---	--

91		<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Bydd unrhyw waith ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi yn cydfynd â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. 	25.1.17
92		<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Bydd unrhyw waith ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi yn cydfynd â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy 	

			<p>cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. 	
93		<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Bydd unrhyw waith ymchwil y byddem yn ei gomisiynu i gynorthwyo i wneud penderfyniad polisi yn cydfynd â Safonau'r Gymraeg ac yn ystyried sut y gall y penderfyniad:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gael dim effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. 	25.1.17
94	Gweithredu	<p>Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.</p>	<p>Byddwn yn gweithredu polisi iaith mewnol i annog defnydd o'r Gymraeg yn fewnol gan gynyddu'r cyfleoedd i'n staff weithio'n ddwyieithog. Mae'r polisi yn rhan o Atodiad 1 y Polisi Safonau'r Gymraeg hwn.</p>	25.1.17

95		Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.	Mae ein holl wybodaeth recriwtio ar gael yn ddwyieithog, a gofynnir i bob ymgeisydd am ei ddewis iaith. Bydd gohebiaeth yn cael ei hanfon yn y Gymraeg i'r rhai sydd wedi nodi mai Cymraeg yw eu dewis iaith.	25.1.17
96		Rhaid ichi— (a) gofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth, ac sydd wedi ei chyfeirio ato'n bersonol, yn Gymraeg, a (b) os yw cyflogai yn dymuno hynny, darparu unrhyw ohebiaeth o'r fath iddo yn Gymraeg.	Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff presenno eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth, byddwn yn gofyn i aelodau newydd o staff ar eu penodiad, Unwaith y bydd yn hysbys, bydd eu dewis iaith yn cael ei nodi ar gyfer y dyfodol ac o hynny ymlaen bydd gohebiaeth wedi'i chyfeirio ato fe neu hi yn bersonol yn cael ei hanfon yn newis iaith yr unigolyn.	25.1.17
97		Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion ei hyfforddiant yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r holl bolisïau, gweithdrefnau a dogfennau ategol ar anghenion neu ofynion hyfforddiant (cynlluniau perfformiad a datblygiad) ar gael i staff yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnrwyd.	25.1.17

98		Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae'r holl bolisiau, gweithdrefnau a dogfennau ategol sy'n amlinellu amcanion perfformiad (cynlluniau perfformiad a datblygiad) ar gael i staff yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cael eu cyhoeddi ar ein mewnwrwyd.	25.1.17
99		Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Bydd holl gofnodion cyflogeion hanesyddol yn aros yn eu hiaith wreiddiol, ond bydd dogfennau'n ymwneud â chynllun gyrfaol unigolyn ar gael yn ei ddewis iaith yn y dyfodol.	25.1.17
100		Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi— (a) gwyliau, (b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.	Mae rhyngwyneb ein system adnoddau dynol mewnol MyNRW ar gael yn Gymraeg neu Saesneg ar gais drwy ein hadran TGCh. Mae cofnod gennym o staff sydd yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd diweddariadau yn y dyfodol o fewn y system MyNRW yn cynnwys gofynion dwyieithrwydd.	25.1.17
101		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiau a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle	25.1.17

			ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	
102		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag iechyd a lles yn y gweithle ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	25.1.17
103		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud â chyflogau neu fuddion yn y gweithle ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	25.1.17
104		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud â rheoli perfformiad ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	25.1.17
105		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	25.1.17
106		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud ag amodau gwaith ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	25.1.17
107		Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Mae ein polisiâu a'n gweithdrefnau yn ymwneud â phatrymau gwaith ar gael yn	25.1.17

			y Gymraeg a'r Saesneg ar y fewnwyd.	
108		Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff— (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.	Mae ein polisi a gweithdrefnau cwynion staff yn nodi bod croeso i staff wneud cwynion yn eu hiaith ddewisol a byddwn yn ymateb yn yr un iaith honno. Bydd unrhyw gyfarfod a gynhelir yn cael ei gynnal yn yr un iaith honno heb gymorth cyfieithydd ar y pryd. Byddwn yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg rhugl priodol yn cynnal y cyfarfod. Cyhoeddir polisi a gweithdrefnau yn ymwneud â chwynion ar y fewnwyd ac maent ar gael i'r holl staff.	25.1.17
108A		Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi cwynion yn datgan y gall staff wneud cwyn yn eu hiaith ddewisol. Bydd cwynion a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg.	25.1.17
109		Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi— (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a	Bydd staff yn cael y dewis o gynnal cyfarfodydd yn ymwneud â chwynion yn eu hiaith ddewisol. I staff sy'n dewis y Gymraeg, byddwn yn	25.1.17

		(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	sicrhau bod siaradwr Cymraeg rhugl priodol yn cynnal y cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu ddilynol.	
111		Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chwyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chwyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff— (a) wedi gwneud y gwyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gwyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gwyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gwyn.	Pan fydd aelod o staff yn gwneud cwyn yn y Gymraeg, byddwn yn ymateb yn Gymraeg ac yn sicrhau bod pob gohebiaeth a chyfarfod dilynol yn cael ei gynnal trwy gyfrwng y Gymraeg os bydd yn dymuno.	25.1.17
112		Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.	Gall staff ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn mewn proses ddisgyblu fewnol yn eu hiaith ddewisol.	25.1.17
112A		Rhaid ichi— (a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.	Mae ein polisi disgyblaeth yn datgan bod croeso i staff ymateb i honiadau a wneir yn eu herbyn yn eu hiaith ddewisol.	25.1.17

113		<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi—</p> <p>(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).</p>	<p>Bydd staff yn cael cynnig dewis iaith mewn unrhyw gyfarfod yn ymwneud â materion disgyblu sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad. Mewn cyfarfodydd lle mae staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, byddwn yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg priodol yn cynnal y cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu ddilynol.</p>	25.1.17
115		<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff—</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.</p>	<p>Bydd staff yn cael eu hysbysu am unrhyw benderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu yn eu hiaith ddewisol.</p>	25.1.17
116		<p>Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).</p>	<p>Mae gan yr holl staff ddewis o ryngwyneb Cymraeg neu Saesneg ar eu cyfrifiaduron, ac mae pecynnau gwirio sillafu a gramadeg a geiriadur Cymraeg <i>Cysgliad/Cysill</i> ar gael i'r holl</p>	25.1.17

			staff ar gais gan ein hadran TGCh.	
117		Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich mewnrwyd.	Mae ein tudalennau mewnrwyd yn ddwyieithog gan roi dewis iaith i'n staff ar bob tudalen. Bydd adroddiadau a chanllawiau technegol a gwyddonol yn Saesneg fel yr amlinellir yn Safonau 36 a 43.	25.1.17
120		Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.	Mae ein mewnrwyd yn cynnig dewis iaith uniongyrchol o Gymraeg neu Saesneg ar bob tudalen.	25.1.17
121		Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.	Mae ein mewnrwyd yn cynnig dwy dudalen wedi'u neilltuo i'r Gymraeg, lle gall staff gael mynediad at y polisi, canllawiau staff a gwybodaeth am hyfforddiant Cymraeg.	25.1.17
122		Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.	Mae'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar ein tudalennau mewnrwyd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
123		Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.	Gofynnir i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi yn ein	25.1.17

			system adnoddau dynol ganolog MyNRW.	
124		Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg— (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.	Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig yn Gymraeg i staff ar (a) recriwtio a chyfweld (b) rheoli perfformiad (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu (ch) ymsefydlu (d) delio â'r cyhoedd (dd) iechyd a diogelwch	25.7.17
125		Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn— (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac gweithdrefnau cwyno a disgyblu.	Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnig yn Gymraeg i staff ar (a) gyfarfodydd (b) cyfweiliadau (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu	25.7.17
126		Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.	Mae gennym raglen Hyfforddiant Cymraeg ar waith sy'n rhoi cyfle i'n holl staff ddysgu Cymraeg at ddibenion gwaith yn ystod oriau gwaith. Mae'n ofynnol i'r holl staff newydd a phresennol nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg fynd ar gwrs "Cyfarch" undydd i allu	25.1.17

			<p>ynganu enwau lleoedd, enwau personol a chyfarchion sylfaenol yn Gymraeg.</p> <p>Caiff yr holl staff eu hannog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg at ddibenion gwaith.</p> <p>Bydd staff y mae'n ofynnol iddynt ddysgu Cymraeg fel amod cyflogaeth yn dilyn rhaglen hyfforddiant iaith drwy gytundeb.</p>	
127		Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.	Mae ein rhaglen Hyfforddiant Cymraeg yn rhoi cyfle i'r holl staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod oriau gwaith.	25.1.17
128		<p>Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu—</p> <p>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);</p> <p>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;</p> <p>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle</p>	<p>Gofynnir i'r holl staff newydd a staff presennol nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg fynd ar gwrs "Cyfarch" undydd sy'n cynnwys ymwybyddiaeth o hanes a diwylliant Cymru. Bydd unrhyw gyrsiau ymsefydlu y byddwn yn eu cynnal yn cynnwys hyfforddiant ar Safonau'r</p>	25.1.17

			Gymraeg a pholisi iaith mewnol.	
129		Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	Mae ein proses ymsefydlu yn cynnwys rhestr wirio i atgoffa rheolwyr llinell i drafod gofynion Safonau'r Gymraeg ac unrhyw ofynion o ran hyfforddiant Cymraeg a gofyn i'r cyflogai newydd hunanasesu a chofnodi ei sgiliau Cymraeg yn y system MyNRW ganolog.	25.1.17
130		Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	Bydd ein siaradwyr Cymraeg naill ai'n defnyddio'r logo iaith Gwaith neu'n mewnosod Siaradwr Cymraeg/Dysgwr Cymraeg i nodi eu bod yn siarad neu'n dysgu siarad Cymraeg.	25.1.17
131		Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.	Bydd llofnodion e-bost yr holl staff, gan gynnwys teitlau swydd a manylion cyswllt, yn ddwyieithog. Bydd negeseuon allan o'r swyddfa yr holl staff yn ddwyieithog.	25.1.17
132		Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;	Bydd y sgiliau Cymraeg ar gyfer pob swydd newydd neu wag yn y sefydliad yn cael eu hasesu gan y rheolwr recriwtio i ddechrau ac yna'n cael eu cytuno gyda	25.1.17

		<p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol</p>	<p>Ymgynghorydd Polisi'r Gymraeg gan ddefnyddio ein canllawiau Staffio a Recriwtio, gan gadw mewn cof gofynion y swydd dan sylw a'r capasiti o ran siaradwyr Cymraeg yn y tîm. Bydd lefel a gofyniad ieithyddol sgiliau Cymraeg yn cael eu nodi'n eglur yn y datganiad cyfraniad ar gyfer pob swydd newydd neu wag. Bydd pob sgil Cymraeg a nodir yn cael ei hysbysebu fel hanfodol ar gyfer pob swydd wag.</p> <p>Ar gyfer yr holl swyddi yn y sefydliad, mae'r gallu i ynganu enwau lleoedd Cymru ac enwau personol, a'r gallu i ddeall a defnyddio ymadroddion Cymraeg sylfaenol yn ofyniad hanfodol i sicrhau y gall staff arfer cwrteisi ieithyddol sylfaenol.</p> <p>Ar gyfer rhai swyddi newydd neu wag a hysbysebir, bydd yn bosibl i ddeiliaid swyddi ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol i gyrraedd y safon ofynnol ar gyfer y</p>	
--	--	---	--	--

			swydd dros gyfnod o amser yn dilyn cynllun hyfforddi a gytunwyd gyda chefnogaeth lawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru.	
132A		Os byddwch wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi— (a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.	Bydd sgiliau Cymraeg swyddi newydd neu gwag yn cael eu hysbysebu'n hanfodol neu fod angen dysgu o fewn cyfnod a gytunir, gan roi disgrifiad eglur o'r lefel iaith a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer y swydd. Bydd pob swydd yn cael ei hysbysebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.	25.1.17
133		Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	Mae hysbysebion a ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym yn croesawu ymgeiswyr i ymgeisio yn eu hiaith ddewisol, a bydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael sylw yn ôl yr un amserlen.	25.1.17

133A	Os byddwch yn cyhoeddi— (a) ffurflenni cais am swyddi deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (b) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.	Mae ein holl bolisiau, gweithdrefnau, hysbysebion a ffurflenni cais sy'n ymwneud â recriwtio ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg	25.1.17
133B	Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).	Bydd ceisiadau a dderbynnir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn cael sylw yn ôl yr un amserlen.	25.1.17
134	Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw unigolyn yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	Mae'r ffurflenni cais yn cynnig lle i unigolion nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfweliad neu ddull asesu arall.	25.1.17
136	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.	Byddwn yn gohebu ag ymgeiswyr yn eu hiaith ddewisol.	25.1.17

		Mae canllawiau mewn lle ar gyfer rheolwyr ar recriwtio.		
137	Arwyddion	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	<p>Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog gyda thestun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yr un fath o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.</p> <p>Bydd arwyddion yn y maes yn ddwyieithog, gan gynnwys hysbysiadau cyfreithiol, a deunydd a arddangosir ar hysbysfyrddau a byrddau gwybodaeth a dehongli, yn ogystal ag arwyddion adnabod ar adeiladau ac wrth fynedfeydd i warchodfeydd, arwyddion cyfeirio a hysbysiadau rhybudd.</p> <p>Mewn adeiladau, bydd ein holl hysbysiadau swyddogol a roddir ar waliau a hysbysfyrddau yn ddwyieithog.</p>	25.1.17

			Byddwn yn gofyn am arwyddion dwyieithog yn yr holl adeiladau a safleoedd hynny lle'r ydym yn denant neu'n ddeiliad.	
138		Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Bydd ein holl arwyddion parhaol a dros dro, ac arwyddion electronig neu gyfrifiadurol, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn ddwyieithog. Bydd y testun Cymraeg i'r chwith neu uwchben y testun Saesneg.	25.1.17
139		Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Bydd yr holl destun ar arwyddion a arddangosir yn ein gweithleoedd yn cael ei brawfddarllen gan ein Tîm Cyfieithu neu siaradwr Cymraeg rhugl i sicrhau cywirdeb o ran ystyr a mynegiant.	25.1.17
140		Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Bydd unrhyw gyhoeddiadau sain a fyddai'n cael eu gwneud yn ein swyddfeydd ein hunain yn ddwyieithog gyda'r neges Cymraeg yn dod o flaen y Saesneg. Un eithriad i hyn fyddai mewn argyfwng go iawn sy'n bygwth bywydau pan fyddai'r	25.1.17

			negeseuon yn Saesneg yn unig.	
141	Cadw Cofnodion	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	Cedwir cofnod o'r holl gwynion yn ymwneud â'r Gymraeg a dderbynnir gan y sefydliad ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r cofnod yn cynnwys natur y gŵyn a pha gamau yr ydym yn eu cymryd mewn ymateb.	25.1.17
142		Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Cedwir cofnodion a chopïau o gwynion ysgrifenedig a dderbynnir sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg yn ganolog gan ein Tîm Ysgrifenyddiaeth.	25.1.17
143		Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	Cedwir yr holl gwynion ysgrifenedig yr ydym yn eu derbyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn ganolog gan ein Tîm Ysgrifenyddiaeth.	25.1.17
144		Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddent yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd hyn yn ystyried sut y gall y penderfyniad:	25.1.17

			<ul style="list-style-type: none"> • Gael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Peidio â chael unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg • Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn ddim llai ffafriol na'r Saesneg. 	
145		Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 123), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	Gofynnir i'r holl staff hunanasesu eu sgiliau Cymraeg a'u cofnodi yn ein system adnoddau dynol ganolog MyNRW, sy'n galluogi'r sefydliad i lunio adroddiadau ar sgiliau Cymraeg ein gweithlu.	25.1.17
146		Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 124), a (b) os ddarparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 124, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	Bydd cofnodion yn cael eu cadw ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar: (a) nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (b) canran y staff a fynychodd gyrsiau a	25.7.17

			ddarparwyd yn Gymraeg	
147		Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 132) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	Cedwir cofnodion o'r holl asesiadau a gynhaliwyd i nodi lefel Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd a gwag ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys gallu iaith yr ymgeisydd llwyddiannus.	25.1.17
148		Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 132) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	Bydd cofnod o'r lefel sgiliau Cymraeg a'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd newydd neu wag yn cael ei gadw ar gyfer pob blwyddyn ariannol.	25.1.17
149	Atodol - Cyflenwi Gwasanaeth	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae gennym bolisi Safonau'r Gymraeg ar waith sy'n amlinellu sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd ar gais.	25.1.17

150		<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>Rydym yn croesawu cwynion ac mae gennym bolisi a gweithdrefn ar waith i ymdrin â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad. Ymdrinnir â'r holl gwynion a dderbynnir yn unol â'r polisi hwn, a gyhoeddir ar ein gwefan ac sydd ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.</p> <p>Tîm profiadol o swyddogion yn y sefydliad sy'n ymdrin â chwynion a dderbynnir gan gynnwys cyfreithwyr pan fo'r angen.</p>	25.1.17
151		<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer—</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>Byddwn yn cymryd camau cadarnhaol i hybu'r Gymraeg yn fwy eang wrth ymdrin ag eraill, ac yn fewnol ar draws ein sefydliad. Byddwn hefyd yn ceisio hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned.</p> <p>Byddwn yn monitro cynnydd o ran gweithredu yn erbyn targedau mewn Cynllun Gweithredu Blynyddol.</p>	25.1.17

			<p>Mae gennym Grŵp Monitro'r Gymraeg ar waith i oruchwyllo a monitro gweithrediad y Safonau ym mhob un o'n cyfarwyddiaethau.</p> <p>Bydd ein Ymgynghorydd Polisi'r Gymraeg a'n gwasanaeth Cyfieithu yn chwarae rhan bwysig o ran helpu i weithredu'r Safonau a darparu cyngor a chymorth angenrheidiol.</p> <p>Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Safonau yn cael ei gyflwyno i'n Bwrdd a'n Tîm Gweithredol, bydd copi yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg, a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.</p> <p>Byddwn yn cynnal cofnod cyfredol ac addas o wybodaeth yn ymwneud â gweithrediad y Safonau, gan ein galluogi i fonitro ac adrodd ar y Safonau.</p>	
--	--	--	---	--

152		<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad (“adroddiad blynyddol”), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy’n delio â’r modd y bu ichi gydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i’r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â’ch cydymffurfedd â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi’r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae’r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i’r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o’ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o’ch swyddfeydd sy’n agored i’r cyhoedd.</p>	<p>Bob blwyddyn, byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys sut y mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â’r amserlen sy’n ofynnol o dan Safonau’r Gymraeg ac yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o’n swyddfeydd sydd ar agor i’r cyhoedd ar gais.</p>	25.1.17
153		<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy’n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â’r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	<p>Bydd ein Polisi Safonau’r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac yn nodi sut y mae’r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â’r holl Safonau gan gynnwys y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y</p>	25.1.17

			mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i ni ar 25.7.16.	
154		Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i ni ar 25.7.16 ar gais.	25.1.17
155	Atodol - Llunio Polisi	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Bydd ein Polisi Safonau'r Gymraeg yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac yn nodi sut y mae'r sefydliad yn bwriadu cydymffurfio â'r holl Safonau gan gynnwys y Safonau Llunio Polisi y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw. Mae'r polisi ar gael ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.	25.1.17
156		Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn—	Mae gennym bolisi a gweithdrefn cwynion ar waith sydd wedi ei gyhoeddi ar ein	25.1.17

		<p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>gwefan ar gyfer pob cwyn a dderbynnir. Mae copi o'r polisi a'r weithdrefn ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.</p>	
157		<p>Rhaid ichi—</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd</p>	<p>Wrth wneud penderfyniadau polisi, byddwn yn defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i asesu'r effeithiau cadarnhaol neu andwyol y byddent yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae copi ar gael ar gais o bob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.</p>	25.1.17
158		<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p>	<p>Bob blwyddyn, byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol a fydd yn cynnwys sut y mae ein sefydliad wedi cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi.</p>	25.1.17

		<p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi yn unol â'r amserlen sy'n ofynnol o dan Safonau'r Gymraeg ac yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.</p>	
159		<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	<p>Mae gennym Bolisi Safonau'r Gymraeg sy'n esbonio sut yr ydym yn bwriadu cydymffurfio â'r holl Safonau gan gynnwys y Safonau Llundain Polisi.</p>	25.1.17

160		Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiad â'r Safonau Llundain Polisi y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i ni ar 25.7.16 ar gais.	25.1.17
161	Atodol - Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd	Mae ein polisi Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau gan gynnwys y Safonau Gweithredol y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw. Mae'r polisi hwn wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.	25.1.17
162		Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn— (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a	Mae gennym bolisi a gweithdrefn cwynion ar waith sydd wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan sy'n esbonio sut yr ymdrinnir â'r holl gwynion a dderbynnir gan y sefydliad. Mae'r polisi a'r gweithdrefnau wedi eu cyhoeddi ar ein gwefan ac ar gael ym mhob	25.1.17

		(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.	un o'n swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd ar gais.	
163		Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer— (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, (ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a (iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnrwyd.	Bydd ein sefydliad yn adrodd yn flynyddol ar ei gydymffurfiaid â Safonau'r Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei adolygu bob blwyddyn a'i addasu fel sy'n ofynnol a'i gyhoeddi ar ein mewnrwyd.	25.1.17
164		(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno. (2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)— (a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 145); (b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsgiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y	Bob blwyddyn, byddwn yn llunio a chyflwyno Adroddiad Blynyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg ar ein cydymffurfiaid â Safonau'r Gymraeg, y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw, ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol a amlinellir yn Safon 164. Bydd gweithrediad y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a'i addasu yn ôl y gofyn.	25.1.17

		<p>flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 146);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 148);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael—</p>		
--	--	---	--	--

		(a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd		
165		Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Mae ein polisi Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw gan gynnwys y Safonau Gweithredol. Mae'r polisi hwn wedi ei gyhoeddi ar ein mewnwyd.	25.1.17
166		Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiaid â'r safonau gweithredol y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i ni ar 25.7.16 ar gais.	25.1.17
167	Atodol - Cadw Cofnodion	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael— (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Mae ein polisi Safonau'r Gymraeg yn cofnodi sut y bydd ein sefydliad yn cydymffurfio â'r holl safonau y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw gan gynnwys y Safonau Cadw Cofnodion. Mae'r polisi hwn wedi ei gyhoeddi ar ein	25.1.17

			gwefan ac ar gael ar gais yn ein swyddfeydd sydd ar agor i'r cyhoedd.	
168		Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadawsoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.	Bydd y sefydliad yn darparu gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â chydymffurfiad â'r safonau cadw cofnodion y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â nhw yn ein Hysbysiad Cydymffurfio a gyflwynwyd i ni ar 25.7.16 ar gais.	25.1.17



Polisi Iaith Mewnol Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru weithredu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer gofathrebu o fewn y sefydliad. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r canlynol:

Dylai staff ddynodi i'r Gwasanaethau Pobl os mai Cymraeg yw eu dewis iaith ar gyfer derbyn gohebiaeth yn ymwneud â'u cyflogaeth sy'n cael ei chyfeirio atynt yn bersonol. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar gyfer y dyfodol wedyn.

Gall staff wneud cais i gael rhyngwyneb MyNRW yn y Gymraeg os ydynt yn dymuno drwy gysylltu â TGCH.

Mae Polisiâu a Gweithdrefnau Rheoli Perfformiad, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg gan gynnig cyfle i'r staff gwblhau'r rhain yn eu hiaith ddewisol.

Eitemau a anfonir i'r holl staff neu i grwpiau mawr o staff

Dwyieithog, o fewn yr un ddogfen gyda'r Gymraeg uwchben neu i'r chwith o'r Saesneg. Mae'r eitemau hyn yn cynnwys:

Yr holl ganllawiau staff

Newyddlenni

Hysbysiadau (staff, swyddfa, swyddi gwag, iechyd a diogelwch ac ati)

Polisiâu

Ffurflenni

Negeseuon e-bost neu gyfarwyddiadau i'r holl staff neu grwpiau mawr o staff. Dylai teitlau e-byst fod yn ddwyieithog a dylid eu cadw'n gryno. Mae negeseuon e-bost safonol, e.e. swyddfa ar gau, parcel i'w ddanfon, ar gael ar y fewnwyd.

Cyflwyniadau Power Point

Bydd canllawiau staff sy'n ymwneud â phwnc penodol, os ydynt yn wyddonol neu'n dechnegol ac wedi'u bwriadu ar gyfer nifer gyfyngedig o staff, gan gofio disgwyliadau'r defnyddwyr, yn ddarostyngedig i'r rhestr gwirio cyfieithiadau a ddefnyddir er mwyn helpu i asesu'r angen am gyfieithiad.

Os daw'n angenrheidiol i greu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân, dylid rhoi teitlau eglur iddynt a'u hanfon allan ar yr un pryd bob amser, ynghyd ag e-bost eglurhaol dwyieithog.

Eitemau a anfonir i grwpiau bach o staff

Dwyieithog, neu'n unol â dewis iaith holl aelodau'r grŵp.

Eitemau a anfonir at unigolion

Cymraeg neu Saesneg, yn dibynnu ar ddewis iaith/gallu'r derbynnydd/derbynyddion. Dylid anfon negeseuon safonol yn ddwyieithog neu yn yr iaith ddewisol.

Anfon eitemau'n ddwyieithog yn fewnol

Anogir siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau ysgrifennu Cymraeg trwy anfon eitemau'n ddwyieithog pryd bynnag y bo hynny'n briodol.

Mae meddalwedd Bing/Word Translate eisoes ar gael yn Word i'w defnyddio gan siaradwyr Cymraeg rhugl a dysgwyr ar gyfer anfon gwaith yn fewnol. Mae canllawiau pellach ar sut i ddefnyddio Bing/Word Translate ar gael ar y dudalen Cyfieithiadau ar y fewnwyd, neu gellir cysylltu â'r Tîm Cyfieithu am ragor o gyfarwyddyd.

Dylai'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg sy'n anfon e-byst i'r holl staff neu i grwpiau mawr o staff anfon y gwaith i'r Tîm Cyfieithu. Gofalwch eich bod yn gadael amser i'r gwaith hwn gael ei wneud.

Cyfarfodydd mewnol

Lle bynnag y bo'n bosibl, dylid cynnig dewis iaith i'r staff mewn cyfarfodydd mewnol, yn yr un ffordd ag y mae aelodau'r cyhoedd yn cael cynnig dewis iaith mewn cyfarfodydd allanol.

Gellir trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd grwpiau mawr neu gyfarfodydd holl staff. Cysylltwch â'r gwasanaeth cyfieithu i drefnu hyn.

Pan nad yw cyfleusterau cyfieithu yn cael eu defnyddio, dylid agor a chau pob cyfarfod yn ddwyieithog. Os bydd sgiliau Cymraeg ar gael i gynnig cyfieithiad anffurfiol, dylid hysbysu ac annog y rhai sy'n cymryd rhan bod croeso iddynt ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Dylai cyflwyniadau PowerPoint at sylw'r holl staff neu grŵp mawr o staff fod yn ddwyieithog.

Iechyd a Diogelwch

Mae AssessNET, ein porth adrodd digwyddiadau, ar gael i staff ei ddefnyddio yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau.

Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn y Gymraeg ar gael yn y meysydd canlynol:

Recriwtio a Chyfweld

Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu

Ymsefydlu

Delio â'r Cyhoedd

Iechyd a Diogelwch

Defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgyblu

Cwynion

Mae croeso i staff sy'n dymuno gwneud cwyn wneud hynny yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Bydd cwynion a dderbynnir yn derbyn ymateb yn newis iaith y sawl sy'n achwyn a bydd unrhyw gyfarfod a gynhelir yn ymwneud â'r gwyn yn cael ei gynnal yn yr un iaith honno. Bydd siaradwr Cymraeg rhugl yn cynnal y cyfarfod lle mae staff wedi mynegi dymuniad i'r cyfarfod gael ei gynnal yn y Gymraeg heb ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd neu ddilynol.

Gweithdrefnau Disgyblu

Gall staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn eu herbyn yn y broses ddisgyblu fewnol.

Bydd dewis iaith yn cael ei gynnig wrth drefnu cyfarfodydd sy'n ymwneud â phrosesau disgyblu. Bydd cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnal heb ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu ddilynol.

Am unrhyw wybodaeth pellach ynghylch y Polisi Safonau Iaith, cysylltwch a Lyn Williams, Ymgynghorydd Polisi Iaith Gymraeg, Cyfoeth Naturiol Cymru.